



Llywodraeth Cymru
Dogfen Ymgynghori

Lleihau'r terfyn cyflymder i 20mya ar ffyrdd cyfyngedig

Ymgynghoriad ar y cynnig i gyflwyno terfyn cyflymder diofyn o 20mya
ar ffyrdd cyfyngedig yng Nghymru

Dyddiad cyhoeddi: 9 Gorffennaf 2021
Angen gweithredu: Ymatebion erbyn 1 Hydref 2021

Mae'r ddogfen yma hefyd ar gael yn Gymraeg.
This document is also available in Welsh.

Trosolwg

Rydym am gael eich barn ar y cynnig i gyflwyno terfyn cyflymder o 20mya ar ffyrdd cyfyngedig yng Nghymru.

Sut i ymateb

Gall ymatebwyr gwblhau'r ymgynghoriad cyhoeddus drwy'r arolwg ar-lein neu lawrlwytho'r arolwg o'r wefan a dychwelyd drwy Freepost

Rhagor o wybodaeth a dogfennau cysylltiedig

Mae fersiynau print bras, Braille ac iaith amgen o'r ddogfen hon ar gael ar gais.

Gorchmynion Traffig ac Adroddiad Arolwg Agweddau Cyhoeddus 20mya (Beaufort Research); Adroddiad Tasglu 20mya; Ymateb Llywodraeth Cymru i Adroddiad Tasglu 20mya, 20 yw'r terfyn: Sut mae annog gostyngiadau cyflymder

Manylion cyswllt

I gael rhagor o wybodaeth:

Arolwg Ymgynghori 20mya
Rhadbost RTLK-KURC-ELKJ
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ

e-bost: 20mph@gov.cymru

ffôn: 0300 0604400

Hefyd ar gael yn Gymraeg yn:

www.llyw.cymru/20mya

Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol (GDPR)

Bydd Llywodraeth Cymru yn rheolwr data ar gyfer unrhyw ddata personol a roddwch fel rhan o'ch ymateb i'r ymgynghoriad. Mae gan Weinidogion Cymru bwerau statudol y byddant yn dibynnu arnynt i brosesu'r data personol hwn a fydd yn eu galluogi i wneud penderfyniadau gwybodus ynghylch sut y maent yn arfer eu swyddogaethau cyhoeddus. Bydd unrhyw ymateb a anfonwch atom yn cael ei weld yn llawn gan staff Llywodraeth Cymru sy'n delio â'r materion y mae'r ymgynghoriad hwn yn ymwneud â hwy neu'n cynllunio ymgynghoriadau yn y dyfodol. Pan fydd Llywodraeth Cymru yn cynnal dadansoddiad pellach o'r ymatebion i'r ymgynghoriad, yna gellir comisiynu'r gwaith hwn i'w wneud gan drydydd parti achrededig (e.e. sefydliad ymchwil neu gwmni ymgynghori). Dim ond o dan gontract y bydd unrhyw waith o'r fath yn cael ei wneud. Mae telerau ac amodau safonol Llywodraeth Cymru ar gyfer contractau o'r fath yn nodi gofynion caeth ar gyfer prosesu a chadw data personol yn ddiogel.

Er mwyn dangos bod yr ymgynghoriad wedi'i gynnal yn briodol, mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu cyhoeddi crynodeb o'r ymatebion i'r ddogfen hon. Efallai y byddwn hefyd yn cyhoeddi ymatebion yn llawn. Fel arfer, cyhoeddir enw a chyfeiriad (neu ran o gyfeiriad) y person neu'r sefydliad a anfonodd yr ymateb gyda'r ymateb. Os nad ydych am i'ch enw a'ch cyfeiriad gael eu cyhoeddi, rhowch wybod i ni yn ysgrifenedig pan fyddwch yn anfon eich ymateb. Byddwn wedyn yn eu golygu cyn eu cyhoeddi.

Dylech hefyd fod yn ymwybodol o'n cyfrifoldebau o dan ddeddfwriaeth Rhyddid Gwybodaeth

Os cyhoeddir eich manylion fel rhan o'r ymateb i'r ymgynghoriad yna bydd yr adroddiadau cyhoeddedig hyn yn cael eu cadw am gyfnod amhenodol. Bydd unrhyw ran o'ch data a gedwir fel arall gan Lywodraeth Cymru yn cael ei gadw am ddim mwy na thair blynedd.

Eich hawliau

O dan y ddeddfwriaeth diogelu data, mae gennych yr hawl:

- cael gwybod am y data personol a gedwir amdanoch a'i gyrchu
- ei gwneud yn ofynnol i ni gywiro gwallau yn y data hwnnw
- i (mewn rhai amgylchiadau) wrthwynebu neu gyfyngu ar brosesu
- i'ch data (mewn rhai amgylchiadau) gael ei 'ddileu'
- i (mewn rhai amgylchiadau) gludadwyedd data
- cyflwyno cwyn i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth (ICO) sy'n rheoleiddiwr annibynnol ar gyfer diogelu data.

I gael rhagor o fanylion am yr wybodaeth sydd gan Lywodraeth Cymru a'i defnydd, neu os ydych am arfer eich hawliau o dan y

Dyma fanylion cyswllt Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth:
Wycliffe House
Water Lane
Wilmslow
Cheshire

GDPR, gweler y manylion cyswllt isod:
Swyddog Diogelu Data:
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ

SK9 5AF

Ffôn: 01625 545 745 neu
0303 123 1113

Gwefan: <https://ico.org.uk/>

e-bost:

Data.ProtectionOfficer@llyw.cymru

Cyflwyniad

Ar 7 Mai 2019 dywedodd Prif Weinidog y Senedd Mark Drakeford:

'Gwyddom fod parthau 20mya yn lleihau cyflymder traffig, yn lleihau damweiniau – yn enwedig damweiniau i blant – ac rydym am weld hynny'n dod yn sefyllfa ddiodyn ledled Cymru.'

Yn dilyn hyn, ffurfiwyd Grŵp Tasglu 20mya Cymru o dan gyfarwyddyd Lee Waters, Dirprwy Weinidog yr Economi a Thrafnidiaeth, ym mis Mai 2019.

Cyhoeddodd y Grŵp Gorchwyl 20mya adroddiad ym mis Hydref 2020, a wnaeth 21 o argymhellion ar gyfer cyflwyno'r terfyn cyflymder cenedlaethol diodyn o 20mya. Derbyniwyd pob un ohonynt gan Lywodraeth Cymru. Diffinnir ffyrdd cyfyngedig fel ffyrdd lle darperir system o oleuadau stryd drwy lampau heb fod yn fwy na 200 llath oddi wrth ei gilydd. Maent fel arfer wedi'u lleoli mewn ardaloedd preswyl ac adeiledig lle y ceir llawer o gerddwyr yng Nghymru. Y terfyn cyflymder cenedlaethol diodyn ar gyfer ffyrdd o'r fath yw 30mya ar hyn o bryd, er y gall awdurdodau lleol ddefnyddio gorchmynion rheoleiddio traffig i bennu terfyn cyflymder arall mewn achosion priodol. Cynhaliwyd dadl yn y Senedd ar 15 Gorffennaf 2020 a arweiniodd at bleidlais i gefnogi bwriad Llywodraeth Cymru i ddechrau'r broses o ddiwygio'r terfyn cyflymder, a gafodd fwyafrif mawr o blaid y cynnig.

Comisiynodd Llywodraeth Cymru Beaufort Research i asesu agweddau'r cyhoedd tuag at gyflwyno cyflymder diodyn o 20mya ar ffyrdd cyfyngedig yng Nghymru. Ym mis Tachwedd 2020, cynhaliwyd arolwg o 1000 o bobl a throsodd ledled Cymru. Mae'r canlyniadau bellach wedi'u Cyhoeddi. [Arolwg o Agweddau'r Cyhoedd at Orchmynion Traffig a Therfynau Cyflymder 20mya Astudiaeth Omnibws Cymru.](#)

Rydym nawr yn gofyn am eich barn ar y cynigion a byddem yn ddiolchgar am eich barn drwy gwblhau'r arolwg canlynol.

Ymgynghoriad cyhoeddus

Bydd yr Ymgynghoriad hwn yn cyflwyno gwybodaeth a thystiolaeth sy'n cefnogi manteision cyflymderau is ar ffyrdd cyfyngedig i ddiogelwch ar y ffyrdd ac i'n cymunedau. Drwy gwblhau'r arolwg naill ai ar-lein neu wedi'i argraffu, mae hwn yn gyfle i bawb yng Nghymru gymryd rhan a mynegi eu barn am y polisi hwn.

Ffurflen Ymateb i'r Ymgynghoriad

Enw:

Sefydliad (os yw'n berthnasol):

e-bost / rhif ffôn:

Eich cyfeiriad:

C1: Ydych chi'n teimlo bod angen lleihau terfynau cyflymder ar ffyrdd cyfyngedig?
Ydw / Nac ydw / Ddim yn gwybod

C2: Pa mor bryderus fydddech chi'n dweud eich bod chi, os o gwbl, am y materion canlynol lle rydych chi'n byw? (Pryderus iawn / gweddol bryderus / ddim yn bryderus iawn / ddim yn bryderus o gwbl / ddim yn gwybod)

- i) Ceir neu gerbydau eraill sy'n gyrru'n rhy gyflym yn gyffredinol
- ii) Ceir neu gerbydau eraill sy'n gyrru'n rhy gyflym ger ysgolion
- iii) Ceir neu gerbydau eraill sy'n gyrru'n rhy gyflym o amgylch ardaloedd lle mae llawer o gerddwyr
- iv) Ceir neu gerbydau eraill sydd wedi'u parcio ar balmentydd
- v) Ffyrdd nad ydynt yn ddiogel i feicwyr
- vi) Plant yn rhan o ddamwain
- vii) Dim digon o gyfleusterau ar gyfer beicio
- viii) Anodd croesi'r ffordd yn ddiogel
- ix) Ansawdd aer gwael / allyriadau cerbydau
- x) Ffyrdd nad ydynt yn ddiogel i bobl â namau

C3: Pa mor ddiogel ydych chi'n teimlo wrth wneud y canlynol ble rydych chi'n byw?

(Diogel iawn / gweddol ddiogel / ddim yn ddiogel iawn / ddim yn ddiogel o gwbl/ ddim yn gwybod / ddim yn berthnasol)

- i) Cerdded yn eich ardal leol
- ii) Beicio ar ffyrdd lleol
- iii) Cerdded/beicio i'r arhosfan bysiau neu'r orsaf drenau
- iv) Croesi'r ffordd

C4: Oes gennych chi blant oedran ysgol? OES/NAGOES

Os NA ewch i C5

Fydddech chi a'ch plant yn cerdded/beicio/sgwtro i'r ysgol yn amlach pe bai'r terfyn cyflymder ar ffyrdd cyfyngedig yn gostwng i 20mya?
BYDDEM / NA FYDDEM / Ddim yn gwybod

C5: Mae Llywodraeth Cymru yn cynnig lleihau'r terfyn cyflymder o 30 mya i 20 mya ar ffyrdd cyfyngedig, sydd fel arfer wedi'u lleoli mewn cymunedau preswyl ac ardaloedd adeiledig ledled Cymru.

Beth yw eich barn am y syniad hwn?

Yn gryf o blaid Ewch i **C6**

Ychydig o blaid Ewch i **C6**

Ychydig yn erbyn Mynd i **C7**

Yn gryf yn erbyn Mynd i **C7**

Ddim yn gwybod Ewch i **C8**

C6: Dyma rai rhesymau pam y gallai pobl gefnogi cyfyngiadau cyflymder 20mya ar ffyrdd cyfyngedig. Pa un o'r rhain, os o gwbl, ydych chi'n cytuno â nhw?

Ticiwch y cyfan sy'n berthnasol:

- i) Annog mwy o gerdded a beicio
- ii) Gwella ansawdd bywyd
- iii) Gwella llif traffig
- iv) Ei gwneud yn fwy diogel i feicwyr
- v) Ei gwneud yn fwy diogel i gerddwyr
- vi) Gwneud strydoedd yn fwy dymunol i fyw ynddynt
- vii) Mae'n golygu y gall plant chwarae'n fwy diogel
- viii) Yn golygu llai o wrthdrawiadau difrifol ar y ffyrdd
- ix) Lleihau sŵn
- x) Lleihau llygredd aer
- xi) Lleihau'r risg o ddamweiniau angheuol
- xii) Gwella iechyd corfforol a meddyliol
- xiii) Ei gwneud hi'n haws i bobl gwrdd

C7: Dyma rai rhesymau pam y gallai pobl wrthwynebu terfynau cyflymder o 20mya ar ffyrdd cyfyngedig. Pa un o'r rhain, os o gwbl, ydych chi'n cytuno â nhw?

- i) Cynyddu damweiniau
- ii) Cynyddu tagfeydd
- iii) Cynyddu llygredd
- iv) Gwneud amseroedd teithio yn hirach
- v) Gwneud ansawdd bywyd yn waeth
- vi) Gallai gael ei anwybyddu gan lawer o yrwyr
- vii) Efallai na chaiff ei heddluo a'i orfodi'n effeithiol
- viii) Yn cythruddo gyrwyr
- ix) Ni fyddai'n gwneud unrhyw wahaniaeth i ddiogelwch beicwyr
- x) Ni fyddai'n gwneud unrhyw wahaniaeth i ddiogelwch cerddwyr

C8: Pa wahaniaeth fyddai cyfyngiadau cyflymder 20mya ar ffyrdd cyfyngedig yn ei wneud i chi'n bersonol? A fyddent yn eich gwneud yn fwy tebygol o wneud y canlynol?

- i) Cerdded mwy BYDDENT/NA FYDDENT
- ii) Gyrru mwy BYDDENT/NA FYDDENT

- iii) Beicio neu Sgwtro BYDDENT/NA FYDDENT
- iii) Defnyddio trafniadaeth gyhoeddus BYDDENT/NA FYDDENT
- iv) Arall. Nodwch _____

C.9: Ydych chi'n meddwl y byddai terfyn cyflymder o 20mya ar ffyrdd cyfyngedig yn cael effaith gadarnhaol ar y canlynol:

- i) Pobl hŷn; BYDDAI/NA FYDDAI
- ii) Y rhai â namau corfforol; BYDDAI/NA FYDDAI
- iii) Y rhai â nam ar y synhwyrau (gweledol, clyw); BYDDAI/NA FYDDAI
- iv) Menywod beichiog BYDDAI/NA FYDDAI

C10: Sut ydych chi'n meddwl fyddai'r terfyn cyflymder 20mya ar ffyrdd cyfyngedig yn effeithio ar y busnesau canlynol (cadarnhaol iawn/ gweddol gadarnhaol/ niwtral/ braidd yn negyddol/ negyddol iawn):

- i) Busnesau "stryd fawr" lleol (siopau, caffis, tafarndai, sefydliadau eraill sy 'n wynebu cwsmeriaid);
- ii) Busnesau yn yr ardal sy'n defnyddio'r rhwydwaith ffyrdd ar gyfer mynediad neu ddanfoniadau
- iii) Cwmnïau cynnal a chadw ffyrdd a chyfleustodau (trydan, nwy, dŵr, cyfathrebu) sydd angen mynediad i waith ar y ffordd

C11: Faint yw eich oed?

16-24 oed	25-34 oed
35-44 oed	45-65 oed
65 + oed	Mae'n well gennyf beidio dweud

C12: A oes gennych nam neu gyflwr iechyd, neu a ydych yn ystyried bod gennych chi?

Oes	Nagoes
Mae'n well gennyf beidio dweud	

C 13: Pa effaith fyddai cyflwyno terfyn cyflymder diodyn o 20mya ar ffyrdd cyfyngedig yng Nghymru yn ei chael ar y Gymraeg?

Cadarnhaol / Negyddol / Dim effaith / Ddim yn gwybod

Os teimlwch y byddai'n effeithio'n negyddol neu'n gadarnhaol ar y Gymraeg, ym mha ffordd y byddai'n effeithio?

Ysgrifennwch eich ateb yma:

C14: Ydych chi wedi gweld neu glywed unrhyw farchnata, cyfathrebu neu hysbysebu yn ddiweddar am y cynnig i leihau'r terfyn cyflymder ar ffyrdd cyfyngedig i 20mya yng Nghymru?

Do / Naddo

C15: Pa mor aml ydych chi'n gwneud un o'r pethau hyn?

- (O leiaf unwaith y dydd / O leiaf unwaith yr wythnos / Llai aml / Byth)
- Darllen papur newydd cenedlaethol (DU) (ar-lein neu bapur)
- Darllen papur newydd cenedlaethol (Cymru) (ar-lein neu bapur)
- Darllen papur newydd lleol (ar-lein neu bapur)
- Gwrando ar orsaf radio
- Gwyllo teledu'r BBC
- Gwyllo hysbyseb teledu
- Defnyddio Facebook
- Defnyddio Twitter

Cwestiwn A: Mae dyletswydd arnom i ystyried effeithiau ein polisïau ar yr iaith Gymraeg, o dan ofynion Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011. Hoffem wybod eich barn ar yr effeithiau y byddai'r cynnig yn ei gael ar yr iaith Gymraeg, yn benodol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg, a pheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg. Pa effeithiau allai fod, yn eich barn chi? Sut gellid cynyddu effeithiau cadarnhaol neu liniaru effeithiau negyddol?

Cwestiwn B: Eglurwch hefyd sut ydych chi'n credu y gall y cynnig gael ei lunio neu ei newid er mwyn cael effeithiau cadarnhaol neu fwy o effeithiau cadarnhaol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg; a pheidio â chael effeithiau andwyol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

Cwestiwn C:

Rydym wedi gofyn nifer o gwestiynau penodol. Os oes gennych unrhyw faterion cysylltiedig nad ydyn ni wedi mynd i'r afael â nhw'n benodol, defnyddiwch y lle hwn i sôn amdanynt:

Mae ymatebion i ymgynghoriadau yn debygol o gael eu cyhoeddi, ar y rhyngrwyd neu mewn adroddiad. Os byddai'n well gennych i'ch ymateb aros yn ddiennw, ticiwch